OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2288 (Cy. 176)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *21 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *28 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pŵ er a roddwyd iddo gan adran 77(4) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**) ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Tribiwnlysoedd yn unol ag adran 8 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(**2**).

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rheoliadau cymhwyswyd (ynghyd ag addasiadau) (22.11.2012) gan The Police and Crime Panels (Application of Local Authority Enactments) Regulations 2012 (O.S. 2012/2734), rhlau. 1(1), **3-6**, Atod. Rhn. 3

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddyfarniadau gan dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd achos interim yng Nghymru yn unig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

**Dyfarniadau**

**2.** Bydd y darpariaethau a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddyfarniadau gan dribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim.

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) 1992 p.53.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
21 Mehefin 2001 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p. 38.

## ATODLEN

**Rheoliad 2**

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "adroddiad" ("*report*") yw'r adroddiad a gynhyrchir gan Gomisiynydd Lleol yng Nghymru yn unol ag adran 71(3)(a) neu 72(1) o'r Ddeddf, y mae copi ohono wedi'i anfon neu wedi'i roi i lywydd Panel Dyfarnu Cymru yn unol ag adran 71(3)(c) neu 72(5)(c) o'r Ddeddf;

ystyr "cofrestr" ("*register*") yw'r gofrestr o ddyfarniadau a phenderfyniadau a gedwir yn unol â'r darpariaethau hyn;

ystyr "cofrestrydd" ("*registrar*") yw'r person sydd am y tro yn gweithredu fel cofrestrydd tribiwnlysoedd ac mae'n cynnwys unrhyw berson a awdurdodir at y diben gan lywydd Panel Dyfarnu Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "person a gyhuddwyd" ("*accused person*") yw person sy'n destun yr ymchwiliad a arweiniodd at y cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru o dan adran 71(3) neu 72(4) o'r Ddeddf;

[F1]...; ac

ystyr "tribiwnlys" ("*tribunal*") yw tribiwnlys achos a sefydlir o dan adran 76(1) o'r Ddeddf neu dribiwnlys achos interim a sefydlir o dan adran 76(2) o'r Ddeddf (yn ôl fel y digwydd).

**F1** Geiriau yn Atod. para. 1 wedi eu hepgor (19.10.2009 gyda chais yn unol â rhl. 1(2)) yn rhinwedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim a Phwyllgorau Safonau) (Diwygio) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2578), rhlau. 1(1), **6(1)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. para. 1 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Cydnabod, cofrestru a hysbysu

**2.** Yn dilyn cyfeiriad gan Gomisiynydd Lleol yng Nghymru o dan adran 71(3) neu 72(4) o'r Ddeddf, rhaid i'r cofrestrydd—

(a) anfon cydnabyddiaeth at y Comisiynydd Lleol o'r ffaith bod y cyfeiriad wedi dod i law;

(b) nodi manylion y cyfeiriad yn y gofrestr;

(c) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw berson a gyhuddwyd ynghylch y cyfeiriad, rhif yr achos a nodwyd yn y gofrestr (a fydd yn ffurfio teitl y dyfarniad) a'r cyfeiriad lle y mae'n rhaid anfon hysbysiadau a gohebiaeth arall at y tribiwnlys; ac

(ch) anfon gyda'r hysbysiad gopi o'r adroddiad ac unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol i'r achos gan gynnwys gwybodaeth ynghylch traddodi ateb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. para. 2 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Ateb

**3.**—(1) Rhaid i berson a gyhuddwyd draddodi ateb ysgrifenedig i'r cofrestrydd sy'n cydnabod bod yr hysbysiad wedi dod i law ac yn datgan—

(a) a yw'r person hwnnw yn bwriadu

(i) bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, neu

(ii) herio cynnwys yr adroddiad ac, os felly, ar ba sail;

(b) enw a chyfeiriad a phroffesiwn unrhyw berson sydd i'w gynrychioli ac ai'r cyfeiriad hwnnw fydd cyfeiriad y person hwnnw ar gyfer cyflwyno dogfennau at ddibenion y dyfarniad; ac

(c) a yw'r person hwnnw yn dymuno bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg.

(2) Rhaid i ateb o'r fath gael ei lofnodi naill ai gan y person a gyhuddwyd neu gan y cynrychiolydd y mae wedi'i enwebu a chael ei draddodi i'r cyfeiriad ar gyfer y tribiwnlys a bennwyd yn yr hysbysiad a roddwyd o dan baragraff 2(c) uchod heb fod yn hwyrach nag un diwrnod ar hugain ar ôl y dyddiad y daeth yr hysbysiad i law neu erbyn unrhyw ddyddiad diweddarach y bydd y tribiwnlys yn ei ganiatáu.

(3) Os na chaiff y cofrestrydd ateb o fewn yr amser penodedig neu o fewn unrhyw estyniad amser a ganiateir gan y tribiwnlys, neu os yw'r person a gyhuddwyd yn datgan yn ei ateb nad yw'n bwriadu naill ai bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad na herio cynnwys yr adroddiad, caiff y tribiwnlys benderfynu ar y dyfarniad heb wrandawiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. para. 3 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Sylwadau ysgrifenedig

**4.** Caiff person a gyhuddwyd sydd wedi traddodi ateb ysgrifenedig i'r cofrestrydd sy'n datgan nad yw'n bwriadu bod yn bresennol na chael ei gynrychioli yn y gwrandawiad na herio cynnwys yr adroddiad anfon at y cofrestrydd sylwadau ysgrifenedig y mae'n rhaid iddynt gael eu hystyried gan y tribiwnlys cyn i benderfyniad ar yr achos gael ei wneud.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. para. 4 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Cyfarwyddiadau wrth baratoi ar gyfer gwrandawiad

**5.**—(1) Caiff y tribiwnlys ar unrhyw adeg, ar gais person a gyhuddwyd neu o'i ben a'i bastwn ei hun, roi cyfarwyddiadau i alluogi'r person hwnnw i baratoi ar gyfer y gwrandawiad neu i helpu'r tribiwnlys i benderfynu ar y materion.

(2) Rhaid i gais am gyfarwyddiadau gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r cofrestrydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. para. 5 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Manylion

**6.** Caiff y tribiwnlys roi cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu unrhyw fanylion y mae'n rhesymol gofyn amdanynt er mwyn penderfynu ar y dyfarniad.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I8** Atod. para. 6 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Datgelu dogfennau a deunyddiau eraill

**7.** Caiff y tribiwnlys roi cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson draddodi i'r tribiwnlys unrhyw ddogfen neu ddeunyddiau eraill y gall y tribiwnlys ofyn amdanynt ac y mae gan y person hwnnw bŵ er i'w traddodi.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I9** Atod. para. 7 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Gwysio tystion

**8.** Caiff y tribiwnlys, drwy wŷs, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y Deyrnas Unedig (ac eithrio Comisiynydd Lleol yng Nghymru ac unrhyw aelod o staff y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru) fod yn bresennol fel tyst yng ngwrandawiad dyfarniad ar unrhyw adeg ac mewn unrhyw le a bennir yn y wŷs ac ateb unrhyw gwestiynau neu ddangos unrhyw ddogfennau neu ddeunyddiau eraill yn y gwrandawiad sydd yn ei gadwraeth neu o dan ei reolaeth sy'n ymwneud ag unrhyw fater sydd o dan sylw yn y dyfarniad, ar yr amod—

(a) na fydd yn ofynnol i unrhyw berson fod yn bresennol gan ufuddhau i wŷs o'r fath oni bai ei fod wedi cael o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg o hysbysiad am y gwrandawiad neu, o gael llai na phedwar diwrnod ar ddeg, ei fod wedi rhoi gwybod i'r tribiwnlys ei fod yn derbyn unrhyw hysbysiad o'r fath sydd wedi'i roi; a

(b) na fydd yn ofynnol i unrhyw berson, heblaw person a gyhuddwyd, gan ufuddhau i wŷs o'r fath, fod yn bresennol a rhoi tystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen oni bai bod treuliau angenrheidiol bod yn bresennol yn cael eu talu neu eu cynnig iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I10** Atod. para. 8 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### [F2 Presenoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**9.**—(1) Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yr hawl i fod yn bresennol, a chaniateir i'r tribiwnlys wneud cais i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod yn bresennol, mewn gwrandawiad dyfarnu at ddibenion—

(a) cyflwyno'r adroddiad a/neu esbonio unrhyw un neu unrhyw rai o'r materion sydd ynddo; a

(b) fel arall chwarae'r cyfryw ran neu gynorthwyo'r tribiwnlys yn y gwrandawiad ag y mae'r tribiwnlys yn ystyried ei bod yn briodol.

(2) Rhaid peidio â gwrthod yn afresymol gais a wneir o dan is-baragraff (1) ac os gwrthodir cais o'r fath rhaid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru roi rhesymau ysgrifenedig i'r tribiwnlys am beidio â chydymffurfio â'r cais i fod yn bresennol mewn gwrandawiad.

(3) Caniateir i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael ei gynrychioli gan gwnsler neu gyfreithiwr.**]**

**F2** Atod. para. 9 wedi ei amnewid (19.10.2009 gyda chais yn unol â rhl. 1(2)) gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim a Phwyllgorau Safonau) (Diwygio) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2578), rhlau. 1(1), **6(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. para. 9 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Arbenigwyr

**10.**—(1) Pan fydd y tribiwnlys yn barnu bod unrhyw gwestiwn yn codi y byddai'n ddymunol cael cymorth arbenigydd yn ei gylch, caiff wneud trefniadau i berson â chymwysterau priodol ymchwilio i'r mater ac adrodd arno ac, os bydd y tribiwnlys yn gofyn iddo wneud hynny, i fod yn bresennol yn y gwrandawiad a rhoi tystiolaeth

(2) Rhaid darparu copi o adroddiad a geir oddi wrth arbenigydd i bob person a gyhuddywd cyn y gwrandawiad neu unrhyw wrandawiad sy'n cael ei ailddechrau.

(3) Rhaid i'r tribiwnlys fod yn gyfrifol am dalu ffioedd arbenigydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Atod. para. 10 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Amrywio neu neilltuo cyfarwyddiadau

**11.** Os na chafodd person y cyfeirir cyfarwyddyd (gan gynnwys unrhyw wŷs) ato gyfle i wrthwynebu gwneud y cyfarwyddyd, caiff wneud cais i'r tribiwnlys am ei amrywio neu ei neilltuo ond rhaid i'r tribiwnlys beidio â gwneud hynny heb yn gyntaf hysbysu'r person a wnaeth y cais am y cyfarwyddyd ac ystyried unrhyw sylwadau a wneir ganddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. para. 11 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Adolygiad cyn gwrandawiad

**12.**—(1) Os bydd yn ymddangos i'r tribiwnlys y byddai cynnal adolygiad cyn gwrandawiad yn hwyluso dyfarniad, caiff roi cyfarwyddiadau, o'i ben a'i bastwn ei hun neu ar gais person a gyhuddwyd, i adolygiad o'r fath gael ei gynnal. Rhaid i'r cofrestrydd roi o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg o rybudd ynghylch amser a lle'r adolygiad i bob person a gyhuddwyd.

(2) Rhaid cynnal yr adolygiad yn breifat oni bai bod y tribiwnlys yn cyfarwyddo fel arall ac fe gaiff unrhyw person a gyhuddwyd ymddangos a chael ei gynrychioli gan unrhyw berson arall.

(3) Mewn adolygiad:—

(a) rhaid i'r tribiwnlys neu, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), y cofrestrydd roi pob cyfarwyddyd y mae'n ymddangos ei fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i sicrhau bod y dyfarniad yn cael ei gynnal yn gyfiawn, yn fuan ac yn ddarbodus;

(b) rhaid i'r tribiwnlys neu,yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), y cofrestrydd ymdrechu i sicrhau bod unrhyw berson a gyhuddwyd yn gwneud pob addefiad a chytundeb a ddylai gael eu gwneud yn rhesymol mewn perthynas â'r dyfarniad; ac

(c) fe gaiff y tribiwnlys, os bydd pob person a gyhuddwyd yn cytuno, benderfynu ar y dyfarniad yn ôl y dogfennau a'r datganiadau sydd ger ei fron ar y pryd heb unrhyw wrandawiad pellach.

(4) Rhaid i'r cofrestrydd arfer y pwerau a roddir iddo gan is-baragraff (3)(a) a (b) yn unol â chyfarwyddiadau'r tribiwnlys a gall unrhyw gyfarwyddyd sy'n cael ei roi gan y cofrestrydd gael ei neilltuo neu ei amrywio gan y tribiwnlys o'i ben a'i bastwn ei hun neu ar gais person a gyhuddwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Atod. para. 12 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

**Hysbysu lle ac amser y gwrandawiad**

**13.**—(1) Rhaid i'r cofrestrydd bennu dyddiad, amser a lle y gwrandawiad ac anfon hysbysiad am y gwrandawiad at unrhyw berson a gyhuddwyd heb fod yn llai nag un diwrnod ar hugain cyn y dyddiad hwnnw.

(2) Yn hysbysiad y gwrandawiad neu gydag ef rhaid i'r cofrestrydd gynnwys—

(a) gwybodaeth a chanllawiau, ar ffurf a gymeradwywyd gan lywydd Panel Dyfarnu Cymru, ynghylch presenoldeb tystion yn y gwrandawiad, dod â dogfennau, a'r hawl i gael eich cynrychioli gan berson arall; ac

(b) datganiad sy'n esbonio canlyniadau posibl peidio â bod yn bresennol a hawl unrhyw berson a gyhuddwyd sydd wedi traddodi ateb ond nad yw'n bresennol ac nad yw'n cael ei gynrychioli i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

(3) Caiff y tribiwnlys ohirio gwrandawiad a rhaid i'r cofrestrydd roi nid llai na saith diwrnod o hysbysiad o unrhyw ohiriad o'r fath i unrhyw berson a gyhuddwyd.

(4) O dro i dro caiff y tribiwnlys dorri gwrandawiad ac, os caiff amser a lle y gwrandawiad a dorrwyd eu cyhoeddi cyn y toriad, ni fydd angen hysbysiad pellach.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. para. 13 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

**Hysbysiad cyhoeddus am wrandawiadau**

**14.** Rhaid i'r cofrestrydd drefnu bod y rhestr o'r holl ddyfarniadau y cynhelir gwrandawiad llafar ar eu cyfer ac o ddyddiad, amser a lle y gwrandawiad ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Atod. para. 14 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

**Pŵer i benderfynu ar ddyfarniad heb wrandawiad**

**15.**—(1) Caiff y tribiwnlys—

(a) os yw pob person a gyhuddwyd yn cytuno felly yn ysgrifenedig, neu

(b) o dan yr amgychiadau a ddisgrifir ym mharagraff 3(3) uchod,

benderfynu ar ddyfarniad, neu ar unrhyw fater penodol, heb wrandawiad.

(2) Bydd darpariaethau paragraffau 17(2) ac 18(6) yn gymwys mewn perthynas â phenderfynu ar ddyfarniad, neu ar unrhyw fater penodol, yn unol â'r paragraff hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Atod. para. 15 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

## Gwrandawiadau i fod yn gyhoeddus:eithriadau

**16.**—(1) Rhaid i holl wrandawiadau tribiwnlys gael eu cynnal yn gyhoeddus ac eithrio pan yw'r tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidio buddiannau cyfiawnder.

(2) Bydd gan y personau canlynol hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawiad, p'un a gaiff ei gynnal yn breifat neu beidio—

(a) llywydd ac aelodau Panel Dyfarnu Cymru, neu unrhyw aelod ohono, er nad hwy yw'r tribiwnlys at ddibenion y gwrandawiad;

F3(b) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(c) Comisiynydd Lleol yng Nghymru neu gynrychiolydd Comisiynydd Lleol yng Nghymru; ac

(ch) swyddog monitro awdurdod y mae'r person a gyhuddwyd yn aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono **[**F4neu gynrychiolydd y swyddog monitro**]** .

(3) Caiff y tribiwnlys ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol mewn gwrandawiad a gynhelir yn breifat.

(4) Heb ragfarnu unrhyw bwerau a all fod ganddo, caiff tribiwnlys wahardd o wrandawiad, neu o ran honno, unrhyw berson y mae ei ymddygiad wedi tarfu ar y gwrandawiad, neu'n debygol o darfu arno ym marn y tribiwnlys.

**F3** Atod. para. 16(2)(b) wedi ei hepgor (19.10.2009 gyda chais yn unol â rhl. 1(2)) yn rhinwedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim a Phwyllgorau Safonau) (Diwygio) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2578), rhlau. 1(1), **6(3)(a)**

**F4** Geiriau yn Atod. para. 16(2)(ch) wedi eu mewnosod (19.10.2009 gyda chais yn unol â rhl. 1(2)) gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim a Phwyllgorau Safonau) (Diwygio) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2578), rhlau. 1(1), **6(3)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Atod. para. 16 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

## Methiant partïon i fod yn bresennol mewn gwrandawiad

**17.**—(1) Os bydd person a gyhuddwyd yn methu â bod yn bresennol neu â chael ei gynrychioli mewn gwrandawiad y mae wedi'i hysbysu'n briodol amdano, caiff y tribiwnlys—

(a) oni bai ei fod wedi'i fodloni bod rheswm digonol dros yr absenoldeb hwnnw, wrando a phenderfynu ar y dyfarniad yn absenoldeb y person hwnnw; neu

(b) torri'r gwrandawiad;

a chaiff wneud unrhyw orchymyn ynghylch costau a threuliau a wêl yn dda.

(2) Cyn penderfynu y dylid penderfynu ar ddyfarniad yn absenoldeb person a gyhuddwyd, rhaid i'r tribiwnlys ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y person hwnnw mewn ymateb i'r hysbysiad am y gwrandawiad ac, at ddibenion y paragraff hwn, rhaid trin unrhyw ateb fel sylw ysgrifenedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. para. 17 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Y weithdrefn mewn gwrandawiad

**18.**—(1) Ar ddechrau'r gwrandawiad rhaid i'r cadeirydd esbonio'r drefn y mae'r tribiwnlys yn bwriadu ei mabwysiadu ar gyfer yr achos.

(2) Yn ddarostyngedig i'r paragraff hwn, bydd y tribiwnlys yn cynnal y gwrandawiad yn y modd hwnnw sydd fwyaf addas ym marn y tribiwnlys i egluro'r materion sydd ger ei fron ac sydd fwyaf addas yn gyffredinol ar gyfer trafod y dyfarniad yn gyfiawn; cyn belled ag y bo'n ymddangos i'r tribiwnlys fod hynny'n briodol, rhaid i'r tribiwnlys geisio osgoi ffurfioldeb yn ei achosion.

(3) Gall y gwrandawiad gael ei gynnal naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl cyfarwyddyd y tribiwnlys ac wrth roi cyfarwyddyd o'r fath rhaid i'r tribiwnlys gymryd i ystyriaeth unrhyw ddewis a nodwyd gan berson a gyhuddwyd mewn ateb a draddodwyd o dan baragraff 3, ac, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gweithredu'r dewis hwnnw . Yn y naill achos neu'r llall rhaid i wasanaeth cyfieithu ar y pryd gael ei ddarparu ar gyfer unrhyw berson sy'n bresennol yn y gwrandawiad ac sy'n gofyn amdano.

(4) Bydd gan unrhyw berson a gyhuddwyd hawl i roi tystiolaeth, i alw tystion, i holi unrhyw dystion ac i gyfarch y tribiwnlys ar y dystiolaeth ac yn gyffredinol ar bwnc y dyfarniad.

(5) Gall tystiolaeth gerbron y tribiwnlys gael ei rhoi ar lafar, neu, os yw'r tribiwnlys yn gorchymyn felly, drwy affidafid neu ddatganiad ysgrifenedig, ond caiff y tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol ar unrhyw adeg yn yr achos i unrhyw un sy'n tystio datganiad ysgrifenedig neu'n gwneud un fod yn bresennol.

(6) Caiff y tribiwnlys dderbyn tystiolaeth o unrhyw ffaith y mae'n ymddangos i'r tribiwnlys ei bod yn berthnasol er na fyddai'r dystiolaeth honno yn dderbyniadwy mewn achos gerbron llys barn ond rhaid iddo beidio â gwrthod derbyn unrhyw dystiolaeth sy'n dderbyniadwy yn y gyfraith ac yn berthnasol.

(7) Caiff tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw dyst roi tystiolaeth ar lw neu ar gadarnhad, ac at y diben hwnnw gall llw neu gadarnhad ar ffurf briodol gael eu rhoi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. para. 18 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Penderfyniad Tribiwnlys

**19.**—(1) Gall penderfyniad tribiwnlys gael ei gymryd gan fwyafrif a rhaid i'r penderfyniad gofnodi a fu'n unfrydol neu a gafodd ei gymryd gan fwyafrif.

(2) Gall penderfyniad tribiwnlys gael ei roi ar lafar ar ddiwedd y gwrandawiad neu ei gadw a, beth bynnag, p'un a gafwyd gwrandawiad neu beidio, rhaid ei gofnodi ar unwaith mewn dogfen y mae'n rhaid iddi gynnwys hefyd ddatganiad o'r rhesymau dros ei benderfyniad a chael ei llofnodi a'i dyddio gan y cadeirydd.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i bob dogfen y cyfeirir ati yn y paragraff hwn gael ei chofnodi yn y gofrestr cyn gynted ag y gellir.

(4) Os bydd unrhyw ddogfen o'r fath yn cyfeirio at unrhyw dystiolaeth sydd wedi'i gwrando yn breifat, dim ond crynodeb o'r ddogfen a nodir yn y gofrestr, gan hepgor unrhyw ddeunydd a gyfarwyddir gan y tribiwnlys.

(5) Ac eithrio lle cyhoeddir penderfyniad ar ddiwedd y gwrandawiad, trinnir y ddogfen sy'n ei gofnodi fel pe bai wedi'i gwneud ar y dyddiad y caiff ei chofnodi yn y gofrestr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. para. 19 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Gorchmynion costau a threuliau

**20.**—(1) Ac eithrio fel y darperir gan baragraff 17(1), rhaid i'r tribiwnlys beidio â gwneud gorchymyn fel rheol i ddyfarnu costau a threuliau, ond yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), fe gaiff wneud gorchymyn o'r fath yn erbyn person os yw o'r farn bod y person hwnnw wedi gweithredu'n wacsaw neu'n flinderus neu fod ei ymddygiad wedi bod yn hollol afresymol.

(2) Rhaid peidio â gwneud gorchymyn o dan is-baragraff (1) yn erbyn person heb i'r person hwnnw gael cyfle i gyflwyno sylwadau yn erbyn gwneud y gorchymyn.

(3) Gall gorchymyn o dan is-baragraff (1) ei gwneud yn ofynnol i'r person y mae'n cael ei wneud yn ei erbyn dalu i berson arall naill ai swm penodedig mewn perthynas â'r costau a'r treuliau a dynnwyd gan y person arall hwnnw mewn cysylltiad â'r dyfarniad neu'r cyfan neu ran o'r costau hynny fel y maent wedi'u asesu (os na chytunir fel arall).

(4) Bydd unrhyw gostau y mae gorchymyn o dan y paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu hasesu yn cael eu hasesu yn y llys sirol ar y sail safonol.

(5) Bydd swm penodedig unrhyw gostau a threuliau a ddyfernir gan dribiwnlys neu swm y costau a'r treuliau hynny ar ôl ei asesu, onid yw'n cael ei neilltuo ac yn ddarostyngedig i unrhyw amrywiad yn sgil apêl neu adolygiad, yn dwyn llog o'r pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl dyddiad dyfarnu'r costau yn ôl y gyfradd sy'n cael ei rhagnodi am y tro o dan adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984(**4**).

(6) Gellir caslgu swm penodedig unrhyw gostau a threuliau neu swm y rheiny fel y mae wedi'i asesu ynghyd ag unrhyw log arnynt drwy atafaeleb a roddir gan lys sirol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. para. 20 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Anghysondebau

**21.**—(1) Ni fydd unrhyw anghysondeb sy'n deillio o fethu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r darpariaethau hyn neu ag unrhyw gyfarwyddyd gan y tribiwnlys cyn i'r tribiwnlys ei hun gyrraedd ei benderfyniad ynddo'i hun yn golygu bod y dyfarniad yn annilys.

(2) Pan ddaw unrhyw anghysondeb o'r fath i sylw'r tribiwnlys, fe gaiff y tribiwnlys, ac os yw o'r farn y gall unrhyw berson fod wedi'i ragfarnu gan yr anghysondeb rhaid i'r tribiwnlys, roi unrhyw gyfarwyddiadau y mae'n credu eu bod yn gyfiawn cyn cyrraedd ei benderfyniad i gywiro'r anghysondeb neu i'w hepgor.

(3) Gall gwallau clerigol mewn unrhyw ddogfen sy'n cofnodi cyfarwyddyd neu benderfyniad gan y tribiwnlys, neu wallau sy'n codi mewn dogfen o'r fath yn sgil llithriad neu hepgoriad damweiniol, gael eu cywiro gan y cadeirydd drwy ardystiad o dan ei law.

(**4**) 1984 p.28.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. para. 21 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Y gofrestr a chyhoeddi penderfyniadau

**22.**—(1) Rhaid i'r gofrestr gael ei chadw yng nghyfeiriad Panel Dyfarnu Cymru a rhaid iddi fod yn agored i unrhyw berson ei harchwilio yn ddi-dâl ar bob adeg resymol.

(2) Caiff y tribiwnlys wneud trefniadau sy'n briodol ym marn y tribiwnlys ar gyfer cyhoeddi ei benderfyniadau ond, wrth wneud hynny, rhaid iddo roi sylw i'r angen i gadw cyfrinachedd unrhyw dystiolaeth a wrandawyd yn breifat ac at y diben hwnnw caiff wneud unrhyw ddiwygiadau sy'n angenrheidiol i destun penderfyniad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. para. 22 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Profi dogfennau a thystysgrif penderfyniadau

**23.**—(1) Bernir bod unrhyw ddogfen sy'n honni ei bod yn ddogfen sydd wedi'i gweithredu neu wedi'i rhoi yn briodol gan y cofrestrydd ar ran y tribiwnlys yn ddogfen sydd wedi'i gweithredu neu wedi'i rhoi felly, yn ôl fel y digwydd, oni phrofir i'r gwrthwyneb.

(2) Bydd dogfen sy'n honni ei bod wedi'i hardystio gan y cofrestrydd fel copi cywir o unrhyw gofnod o benderfyniad yn y gofrestr yn dystiolaeth ddigonol o'r cofnod ac o'r materion a gynhwysir ynddo, oni phrofir i'r gwrthwyneb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Atod. para. 23 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Dull anfon, traddodi neu gyflwyno dogfennau, etc.

**24.**—(1) Bydd unrhyw ddogfen y mae'r darpariaethau hyn yn gofyn neu'n awdurdodi ei hanfon, ei thraddodi neu ei chyflwyno i unrhyw berson wedi'i hanfon, wedi'i thraddodi neu wedi'i chyflwyno yn briodol i'r person hwnnw—

(a) os yw wedi'i hanfon at y person hwnnw yn ei gyfeiriad priodol drwy'r post mewn llythyr cofrestredig neu drwy ddosbarthiad a gofnodwyd;

(b) os yw wedi'i hanfon ato yn y cyfeiriad hwnnw drwy neges ffacsimili neu unrhyw gyfrwng arall sy'n cynhyrchu dogfen sy'n cynnwys testun yr ohebiaeth, ac os felly bernir bod y ddogfen wedi'i hanfon pan fydd wedi dod i law ar ffurf ddarllenadwy; neu

(c) os yw wedi'i thraddodi iddo neu wedi'i gadael yn ei gyfeiriad.

(2) Bydd unrhyw ddogfen y gofynnir neu yr awdurdodir ei hanfon, ei thraddodi neu ei chyflwyno i gwmni neu gorff corfforedig wedi'i hanfon, wedi'i thraddodi neu wedi'i chyflwyno os yw wedi'i hanfon, wedi'i thraddodi, neu wedi'i chyflwyno i ysgrifennydd y cwmni neu'r corff.

(3) Cyfeiriad priodol unrhyw berson y mae unrhyw ddogfen o'r fath i'w hanfon, ei thraddodi neu ei chyflwyno iddo fydd cyfeiriad hysbys diwethaf y person o dan sylw ac yn achos ysgrifennydd unrhyw gwmni neu gorff corfforedig, swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa y cwmni neu'r corff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Atod. para. 24 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

### Amser

**25.** Pan fydd yr amser a ragnodir gan y darpariaethau hyn ar gyfer gwneud unrhyw weithred yn dod i ben ar ddydd Sul neu ar ŵ yl gyhoeddus, bydd y weithred yn brydlon o'i gwneud ar y diwrnod canlynol nesaf nad yw'n ddydd Sul neu'n ŵ yl gyhoeddus.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Atod. para. 25 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **rhl. 1(1)**

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân, awdurdodau heddlu ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ("awdurdodau perthnasol") fabwysiadu cod ymddygiad i aelodau ac aelodau cyfetholedig ac i Gomisiynydd Lleol yng Nghymru ymchwilio i achosion lle yr honnir bod aelod neu aelod cyfetholedig (neu gyn-aelod neu gyn-aelod cyfetholedig) o awdurdod perthnasol wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod, neu ei bod yn bosibl eu bod wedi methu â chydymffurfio ag ef.

Yn dilyn ymchwiliad o'r fath, caiff Comisiynydd Lleol yng Nghymru benderfynu y dylai'r materion sy'n destun yr ymchwiliad gael eu cyfeirio at lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn i dribiwnlys sy'n dod o fewn adran 76(1) o'r Ddeddf ("tribiwnlys achos") ddyfarnu arnynt.

O dan amgylchiadau penodol, cyn i ymchwiliad gael ei gwblhau, caiff Comisiynydd Lleol yng Nghymru gynhyrchu adroddiad interim a chyfeirio'r materion sy'n destun yr adroddiad at lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn i dribiwnlys sy'n dod o fewn adran 76(2) o'r Ddeddf ("tribiwnlys achos interim") ddyfarnu arnynt.

Mae'r rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud o dan adran 77(4) a (6) o'r Ddeddf, yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â dyfarniadau gan dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd achos interim.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 22/11/2012.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001.